**YNGHYLCH DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**
**A RHEOLIADAU YMCHWILIADAU LLYWODRAETH LEOL (SWYDDOGAETHAU SWYDDOGION MONITRO A PHWYLLGORAU SAFONAU) (CYMRU) 2001 (FEL Y'U DIWYGIWYD)**

**AC**

**YNGHYLCH Y CYNGHORYDD ANDREW PHILLIPS,**
**AELOD O GYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED**

# PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU
# CYNGOR SIR CEREDIGION

# HYSBYSU PENDERFYNIAD

**15 TACHWEDD 2024**

## Cefndir

1. Gwnaeth Pwyllgor Moeseg a Safonau'r Cyngor (sef "y Pwyllgor") ystyried adroddiad y Dirprwy Swyddog Monitro a'r atodiadau a oedd ynghlwm. Hefyd derbyniodd sylwadau oddi wrth gynrychiolwyr yr Ombwdsmon, y Cynghorydd Andrew Phillips a thystion perthnasol parthed canfyddiadau'r ymchwiliad (cyfeirnod achos 202208582) yn ogystal ag unrhyw honiad fod y Cynghorydd Andrew Phillips wedi methu â chydymffurfio â Chodau Ymddygiad perthnasol Cyngor Sir Ceredigion fel y nodwyd yn adroddiad ymchwiliad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, dyddiedig 12 Ionawr 2024 a wnaed yn unol ag adran 69 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Daeth y Pwyllgor i Benderfyniad Terfynol.

2. Yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, roedd Cyngor Sir Ceredigion wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau a oedd wedi ei gynnwys yn adroddiad yr Ombwdsmon dyddiedig 12 Ionawr 2024.

3. Roedd y Cynghorydd Andrew Phillips ("yr Aelod") wedi llofnodi ymrwymiad i gydymffurfio â Chod Ymddygiad y Cyngor.

4. Mae Rhan 5 o Ddogfen S Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion ("y Cyngor") yn nodi'r weithdrefn ("Gweithdrefn Gwrandawiadau") ar gyfer ymdrin â honiadau yn erbyn Cynghorwyr a gyfeirir (gan yr Ombwdsmon) i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau.

5. Pwrpas ymchwiliad yr Ombwdsmon yw penderfynu a fu achos o dorri'r Cod Ymddygiad ac os felly, cyfeirio'r achos i'r Pwyllgor Safonau perthnasol i benderfynu yn ei gylch, ac i osod cosb os bernir bod hynny'n angenrheidiol.

6 Roedd yr Ombwdsmon wedi penderfynu y gallai'r Aelod fod wedi torri Cod Ymddygiad Cygnor Sir Ceredigion, yn enwedig paragraffau 6 (1) (a) sy'n nodi:

"6. Rhaid i chi —
(a) *peidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod;"*

7. Cyfeiriodd yr Ombwdsmon ei hadroddiad ymchwil at Ddirprwy Swyddog Monitro Cyngor Sir Ceredigion er mwyn i'r Pwyllgor Safonau ei ystyried.

8. Ar 11 Gorffennaf 2024, yn unol â pharagraff 22 o'r Weithdrefn Gwrandawiadau a Rheol 7 o Reoliadau 2021, penderfynodd y Pwyllgor

- fod tystiolaeth a allai fod yn gyfystyr â methu â chydymffurfio â Chod Ymddygiad Cyngor Sir Ceredigion, ac y dylid
- rhoi cyfle i'r Aelod gyflwyno sylwadau, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, mewn perthynas â chasgliadau'r ymchwiliad ac unrhyw honiad ei fod wedi methu, neu y gallai fod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad."

**Y Gwrandawiad**

9 Yn y Gwrandawiad Terfynol ar 15 Tachwedd 2024 gwnaeth Dirprwy Swyddog Monitro'r Cyngor, a oedd yn cynghori'r Pwyllgor, gyflwyno'i hadroddiad. Roedd yr Aelod yn bresennol yn bersonol hefyd. Cyflwynodd yr Ombwdsmon ei hadroddiad hefyd ac roedd yn bresennol o bell.

**Cam Cyntaf: Materion Rhagarweiniol**

Trafododd y Pwyllgor faterion rhagarweiniol gan gynnwys gohebiaeth, dogfennaeth berthnasol a thystion yn unol â gweithdrefn Gwrandawiadau'r Pwyllgor (paragraff 37).

PENDERFYNODD y Pwyllgor:

a) fabwysiadu gweithdrefn Cyngor Sir Ceredigion fel y nodir yn Rhan 5 o Ddogfen S y Cyfansoddiad ("y Weithdrefn Gwrandawiadau")

b) ar ôl gweithredu Prawf Lles y Cyhoedd,

i) y dylai gweddill y gwrandawiad ddigwydd yn gyhoeddus (paragraff 33 Gweithdrefn Gwrandawiadau) ar ôl ystyried sylwadau'r Aelod a chynrychiolydd yr Ombwdsmon,

ii) gohirio’r penderfyniad ynghylch a ddylid clywed tystiolaeth gan dystion yr Aelod hyd nes y cam Canfyddiadau Ffeithiol.

**Ail Gam: Canfyddiadau Ffeithiol**

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ysgrifenedig yr Ombwdsmon, a sylwadau a dogfennau pellach a gyflwynwyd gan yr Aelod a'r Ombwdsmon yn unol â gweithdrefn Gwrandawiadau’r Pwyllgor (paragraffau 38-44).

Bu’r Pwyllgor hefyd yn ystyried cyflwyniadau llafar gan gynrychiolydd yr Ombwdsmon (a oedd yn bresennol o bell), a’r Aelod a oedd yn bresennol yn bersonol.

Gwnaeth y Pwyllgor ganfyddiadau ffeithiol mewn perthynas â’r ffeithiau diamheuol, yn ôl tebygolrwydd, yn unol â gweithdrefn Gwrandawiadau’r Pwyllgor (paragraffau 45-51).

**Trydydd Cam: Y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau**

Canfu'r Pwyllgor, yn ôl tebygolrwydd, fod ymddygiad yr Aelod wedi mynd yn groes i baragraff canlynol Cod Ymddygiad Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer Aelodau:

“6 (1) Rhaid i chi-;

(a) *peidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod.”*

10 **Camau i’w Gweithredu / Sancsiynau**

Yn unol â gweithdrefn Gwrandawiadau’r Pwyllgor (paragraffau 52-56), penderfynodd y Pwyllgor:

a) Mewn perthynas â’r mater sy’n ymwneud â Chyngor Sir Ceredigion, penderfynodd y Pwyllgor arfer ei bŵer yn unol â Rheoliad 9 o Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001, fel y’u diwygiwyd, ac y dylai'r Aelod gael ei geryddu.

11 **Apelio**

Mae gan yr Aelod yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Moeseg a Safonau Ceredigion. Rhaid cychwyn yr apêl drwy ofyn yn ysgrifenedig, o fewn 21 diwrnod ar ôl derbyn y llythyr hwn, am ganiatâd i apelio i’r Panel Dyfarnu yn y cyfeiriad canlynol:-

Cofrestrydd y Panel
Panel Dyfarnu Cymru

Adeiladau'r Llywodraeth
Spa Road East
Llandrindod
Powys
LD1 5HA

Ar ôl derbyn yr Hysbysiad Apêl, bydd Llywydd Panel Dyfarnu Cymru yn penderfynu a ddylid rhoi caniatâd i apelio ai peidio. Rhaid i sail yr apêl nodi'r rhesymau dros apelio ac a ydych yn cydsynio i'r apêl gael ei chynnal drwy sylwadau ysgrifenedig.

Gall Panel Dyfarnu Cymru gynyddu yn ogystal â lleihau'r gosb.

Yn unol â Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd) ("y Rheoliadau") a pharagraff 67 o'r Weithdrefn Gwrandawiadau, caiff yr Aelod, yr Achwynydd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru eu hysbysu am benderfyniad y Pwyllgor drwy'r Hysbysiad Penderfynu hwn.

Llofnod

Gail Storr
Cadeirydd, ar ran Pwyllgor Moeseg a Safonau Cyngor Sir Ceredigion

Dyddiad: 3 Rhagfyr 2024